

Darlith Goffa Hedley Gibbard

Dydd Gwener, 5 Awst 2005

Hwyl a Helynt Cyfieithu ar y Pryd yng Nghymru

- Diolch am yr anrhydedd o gael cyflwyno'r ddarlith hon. Dwi am bwysleisio ar y dechrau un mai "sgwrs" a gewch chi bore 'ma ac nid "darlith". Fe glywsoch lawer o ddarlithoedd yn ystod wythnos yr Eisteddfod a 'dwi newydd ddarllen darlith ragorol Cadeirydd Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar wefan y Gymdeithas.
- O gymharu â swmp a sylwedd y rheiny, rhyw bytiau ddigon arwynebol a thameidiog sy'n eich disgwyl chi heddiw. Er mai Parabl ydi enw fy nghwmni, dwi ddim wedi arfer llefaru fy ngeiriau fy hun.
- Ar fore Gwener yr Eisteddfod, wrth annerch pererindotwyr blinedig ceisiaf osgoi bod yn rhy drwm drwy drafod materion arddull ac ati - hel atgofion am y dyddiau cynnar a son am ambell i dro trwstan a fyddai'n bennaf.
- I'r rhai ohonoch sy'n anghyfarwydd â therminoleg cyfieithu, gwell diffinio beth yw "cyfieithu ar y pryd". Sôn ydw i am gyfieithu ar lafar ac nid cyfieithu ysgrifenedig - trafod cyfieithu ar y pryd (*simultaneous interpretation*) ac nid cyfieithu olynol (*consecutive interpretation*).
- Mewn cyfieithu olynol mae person yn siarad brawddeg neu ddwy (ac yn y gorffennol araith gyfan), mewn un iaith a'r cyfieithydd wedyn yn trosi'r geiriau hynny i iaith arall. Gwelwch enghreifftiau o'r grefft yn aml ar y teledu pan fo gwleidyddion o bell yn cwrdd.
- Mae gan lorgen Hansen, cyn Bennaeth Swyddfa Ewrop yng Nghymru, stori ddifyr amdano'i hun yn eistedd rhwng dau wladweinydd enwog yn cyfieithu'n olynol mewn cinio crand. Byddai'r naill yn gofyn cwestiwn, ac yna bwyta ceged o ginio tra'r oedd y llall yn ateb. Yna digwyddai'r un peth o chwith. Gwelai lorgen druan ei fwyd yn dod ac yn mynd heb ei gyffwrdd, oherwydd roedd o'n gorfod cyfieithu drwy'r amser. Peidied neb a meddwl fod cyfieithwyr yn cael hei leiff!
- Daeth cyfieithu ar y pryd i Gymru tua 1970. Ymunais i â'r giwed ryfedd hon yng nghanol y saithdegau a bum wrthi bellach ers rhagor na 30 mlynedd.
- Y gŵr oedd yno ar y dechrau ydy'r cyfaill annwyl a goffawn gyda'r ddarlith flynyddol hon – y diweddar Hedley Gibbard – cyfieithydd ar y pryd rhagorol yr ydym oll yn dal i geisio ei efelychu ac mor aml yn syrthio'n brin.

- Hyd y gwn i, y tro cyntaf y gwelwyd cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfod yng Nghymru oedd tua 15 milltir o'r babell hon dros y dŵr yn Llangefni – yn siambr Cyngor Sir Fôn.
- Wn i ddim a gofnododd Hedley ar bapur rai o'i lu o hanesion difyr. Fe'i clywais yn eu hadrodd lawer gwaith – a rhaid ichi faddau imi os ydw i wedi cam-glywed neu gamddeall rhai pethau. Da chi, cywirwch fi os methais, er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael yr hanes yn hollol gywir.
- Cyn sôn am Langefni, fodd bynnag, da o beth fyddai gosod y datblygiadau hyn mewn cyd-destun ehangach. Wrth gwrs fe fu cyfieithu / lladmeru ers cyn cof - mae'n debyg fod un o hieroglyffau'r Aiff 3,000 o flynyddoedd CC yn darlunio "cyfieithu ar y pryd" (peidiwch a gofyn sut!). Ond dim ond gyda datblygiadau technegol y ganrif ddiwethaf y daeth cyfieithu ar y pryd yn bosibl.
- Yng nghyfrol rhif 1, 2000, o'r *United Nations Chronicle* cyfeirir at ran bwysig David Lloyd George yn torri'r monopoli a oedd gan yr iaith Ffrangeg fel cyfrwng diplomyddiaeth. Digwyddodd hynny yng Nghynhadledd Heddwch Paris yn 1919, yn syth ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf.
- Fel prif weinidog Prydain, dadleuodd Lloyd George ac Arlywydd yr Unol Daleithiau Woodrow Wilson yn llwyddiannus o blaid y Saesneg fel ail iaith swyddogol i'r gynhadledd. Wedyn, mabwysiadwyd Ffrangeg a Saesneg fel ieithoedd swyddogol y sefydliadau pwysig a ddeilliodd o'r gynhadledd honno: Cynghrair y Cenhedloedd (y *League of Nations* byr hoedlog), y Llys Cyfiawnder Rhyngwladol a'r Swyddfa Lafur Ryngwladol (yr *ILO*). Am y tro cyntaf roedd galw am wasanaethau cyfieithu llafar mewn cynadleddau o'r fath.
- Cyfieithwyr olynol oedd y to cyntaf o gyfieithwyr llafar. Safent mewn lle amlwg - wrth ysgwydd y bobl a gyfieithent. Roedd i'r swydd o ganlyniad broffil uchel, a chyflogau nid bychan i gyfateb. Ond roedd y broses yn boenus o ara' deg. Os oedd tair iaith swyddogol mewn cynhadledd, cymerai ddwy awr i gyfieithu araith awr o hyd. Dadleuai rhai bod hyn yn beth da am ei fod yn rhoi amser i bobl fyfyrion ynghylch arwyddocâd y print mân! (Yr oedd yna enghraifft o gyfieithu olynol Llydaweg / Cymraeg mewn un digwyddiad ar faes y Steddfod echdoe – a phroses ddigon araf oedd hi yno hefyd yn ôl a glywais.)
- Yn 1925 cynigodd entrepreneur o Boston, UDA, y dylid cyflwyno system gyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd Cynghrair y Cenhedloedd. Cynhaliwyd arbrawf yng nghynhadledd yr ILO yn 1928, a noddwyr yr arbrawf yn hyfforddi a dewis y

cyfieithwyr. Dynion oedd bron pob cyfieithydd olynol yr adeg hon, ond diddorol nodi fod pedair allan o'r naw cyfieithydd ar y pryd a ddewiswyd yn ferched. Llwyddodd yr arbrawf a defnyddiwyd cyfieithu ar y pryd yn rheolaidd yng nghyfarfodydd yr ILO er gwaethaf anawsterau technegol.

- Cafodd cyfieithu ar y pryd amlygrwydd rhyngwladol yn Nhreialon Nuremberg ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd. Yn lluniau'r gynhadledd honno mi welwch ddwy res o gyfieithwyr tu ôl i baneli bach gwydr yn trosi rhwng yr ieithoedd Almaeneg, Ffrangeg, Rwsieg a Saesneg, a'r diffynyddion a'r erlynwyr yn gwisgo clustffonau. [Gellid bod wedi cyfieithu i'r Gymraeg yno hefyd gan mai un o'r erlynwyr yn Nuremberg oedd bargyfreithiwr disglair o Lanelli, Elwyn Jones – yr Arglwydd Ganghellor Elwyn Jones yn ddiweddarach.]
- Cafodd y rhan fwyaf o gyfieithwyr Nuremberg eu hyfforddi wrth fynd yn eu blaen (on the job)– sefyllfa gyfarwydd i'r rhai ohonom oedd yn cyfieithu ar y pryd yng Nghymru yn y 1970au.
- Cyngor Sir Fôn oedd y cyntaf i ddarparu'r gwasanaeth cyfieithu ar y pryd - yng nghyfarfodydd y Cyngor llawn a'r Pwyllgor Addysg, mi gredaf. 'Dwi ddim yn gwybod pwy arweiniodd yr ymgyrch drosto. Byddai'n werth pori drwy gofnodion y cyngor ac adroddiadau papur newydd y cyfnod. Yr oedd, wedi'r cyfan, yn gam blaengar iawn y dylid ei groniclo.
- Yn ôl Hedley, roedd offer a bwth wedi ei osod yn Neuadd y Sir, Llangefni, y dechnoleg oll yn ei le a phopeth yn gweithio pan sylweddolwyd fod un darn bach o'r jig-so ar goll - roedd angen cyfieithydd!
- Ystyriwyd y broblem gan y Sanhedrin sirol a phenderfynwyd ar ateb a allai fod wedi claddu cyfieithu ar y pryd yng Nghymru am genhedlaeth gyfan. Mae pawb sy'n gwybod unrhyw beth am gyfieithu ar y pryd yn sylweddoli mai un o'r prif ofynion yw gwybodaeth drylwyr o'r iaith darged, fel y'i gelwir - h.y. yr iaith y byddwch yn cyfieithu iddi. Gellwch fod yr awdurdod pennaf ar iaith y siaradwr, ond os nad oes gennych afael cadarn ar yr iaith darged mae bywyd yn boen i'r cwsmer dibynnol.
- Ateb greddfod Cyngor Sir Fôn oedd meddwl pwy oedd y person cadarnaf ei Gymraeg o fewn cyrraedd hwylus i Llangefni, heb gofio mai Saesneg oedd yr iaith darged. Dewiswyd gweinidog ifanc un o eglwysi Llannerchymedd. Yn ffodus iawn, Hedley Gibbard oedd y gweinidog hwnnw! Roedd eisoes yn cyfieithu yn llysoedd Llangefni –

mewn achosion cyffrous fel “lladrad yr iâr unllygeidiog” yn ôl ei weddw, Mair. Ond cyfieithu olynol oedd hwnnw, siwr o fod.

- Wn i ddim sut hwyl gafodd Hedley tra bu’n bwrw’i brentisiaeth cyfieithu ar y pryd gyda Chyngor Môn. Yn amlwg, creodd argraff dros y dŵr yn Sir Gaernarfon. Penderfynodd Cyngor Sir Gaernarfon hefyd ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yng nghyfarfodydd y cyngor llawn a’r Pwyllgor Addysg yn unig. Gwahoddwyd Hedley Gibbard unwaith eto i wneud y gwaith.
- Os oes rhywun yma sy’n cofio Clerc yr hen Gyngor Sir Gaernarfon - Eryl Owen Jones - fe wyddoch ei fod yn wŷr tâl, militaraid ei osgo o’r hen do o weinyddwyr llywodraeth leol; gŵr a oedd yn ysgrifennu llythyrau iddo fo’i hun yn ei wahanol swyddogaethau “Dear Mr Eryl Owen Jones, I beg to inform you that so and so committee has resolved ...Signed Eryl Owen Jones.” Fe’u gwelais â’m llygaid fy hun.
- Fo, gyda llaw, a gyflwynodd gadair Eisteddfod Caernarfon a’r Cylch 1979 y tro diwethaf yr oedd yr Eisteddfod yn y parthau hyn. Un o storïau difyrraf yr eisteddfod honno yw’r trafodaethau a fu ynghylch beth i’w wneud â chadair wag nad oedd yr un bardd yn deilwng ohoni. Ond stori arall yw honno.
- Mae’n debyg fod rhai aelodau o staff iau'r swyddfa yn crynu’n eu sodlau pan glywent frathiad awdurdodol Clerc y Cyngor Sir. Wfft i’r ffaith fod Hedley’n cyfieithu i Gyngor Môn - rhaid oedd iddynt gynnal eu prawf cyfieithu ar y pryd eu hunain yn Sir Gaernarfon.
- Daeth dydd y prawf a gorchynnwyd Hedley i gamu mewn i’r bwth newydd yn Siambr Hywel Dda. Trodd y Clerc at un o’r ysgrifenyddesau - “Read that” meddai, gan bwyntio at dudalen gyntaf llyfr cofnodion cyfredol y Cyngor Sir. Yn ffodus i Hedley, roedd copi o’r cyfryw Lyfr Cofnodion wrth law yn y bwth. Darllenodd y ferch ifanc y fersiwn Gymraeg yn nerfus, a “chyfieithodd” Hedley’r cyfan i Saesneg caboledig drwy ddarllen y dudalen gyferbyn.
- “Excellent”, cyhoeddodd y Clerc, a chychwynnodd gyrfa o dros 30 mlynedd o gyfieithu ar y pryd ar y tir mawr i Gynghorau Sir Caernarfon, Cyngor Sir Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor newydd Gwynedd. Yn ôl Hedley, ymateb un cynghorydd amlwg o Landudno wedi’r cyfarfod cyntaf un oedd “That was very good – but it will never catch on young man”.

- Dim ond wrth edrych yn ôl dros y degawdau y sylweddolaf gyfnod mor arloesol ydoedd canol y saith degau o ran lledaeniad cyfieithu ar y pryd. Roedd Cyngor Sir Gwynedd yn chwilio am bob cyfle i genhadu drwy gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ddi-dâl am y tro cyntaf i sefydliadau eraill. Bu cyfarfod o Bwyllgor Dethol Seneddol yn Siambr Hywel Dda yng Nghaernarfon lle darparwyd gwasanaeth cyfieithu. Dyma, meddai rhywun, yr unig dro i ran o Senedd Prydain glywed areithiau mewn cyfarfod swyddogol mewn iaith heblaw'r Saesneg. Dangosodd y ffordd ar gyfer datblygiadau Cynulliad Cenedlaethol ugain mlynedd yn ddiweddarach.
- Y rhai oedd yn gyrru'r drefn newydd yn ei blaen yn y cynghorau sir newydd a gyflwynwyd yng Nghymru yn 1974 oedd cynghorwyr fel Dafydd Orwig o Sir Gaernarfon, John Lazarus Williams o Fôn ac O M Roberts o Ddyffryn Conwy, a swyddogion fel Ioan Bowen Rees, Ysgrifennydd cyntaf y Wunedd newydd – yr oedd ei dad yn athro Saesneg arnaf yn hen ysgol ramadeg Dolgellau yn y pumdegau. Mae'n chwith meddwl eu bod oll wedi'n gadael erbyn hyn.
- Rwy'n deall mai'r bwriad gwreiddiol oedd parhau â threfn Sir Gaernarfon o gyfieithu ar y pryd yn unig yng nghyfarfodydd llawn y Cyngor Sir a'r Pwyllgor Addysg Gwynedd. Pan awgrymwyd hyn gan Eryl Owen Jones, a oedd yn gweithredu fel ysgrifennydd dros dro i'r cyngor newydd yn ei gyfnod cysgodol, mae'n debyg i'r Cynghorydd Wmffra Roberts o Benygroes - asiant etholiadol Dafydd Wigley - gyhoeddi "gwnewch fel y mynnoch, ond dwi ddim yn bwriadu siarad unrhyw iaith heblaw'r Gymraeg ar unrhyw adeg yn y Cyngor hwn".
- Pan gefais fy mhenodi'n Brif Gyfieithydd cyntaf Cyngor Sir Gwynedd yn 1974 – cyfieithu ysgrifenedig yn unig yr oeddwn i a'r rhan fwyaf o'r tîm yn ei wneud (gyda llaw, ymhlith y pererinion cynnar yr oedd Megan Tomos, Prif Swyddog gweithgar Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru).
- Darperid y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd gan un aelod o'r staff llawn amser, sef Mair Hunt (chwaer Rhiannon – y gemydd o Dregaron a merch i'r Athro Jac L Williams). Yn ei chynorthwyo yr oedd Hedley Gibbard a oedd erbyn hynny wedi symud fel gweinidog i Bwllheli. Deuai ef i mewn ar sail llawrydd yn ôl y galw.
- Buan iawn yr oedd yn rhaid cynyddu'r ddarpariaeth. Yn ffodus, ymroddodd y tîm cyfan o gyfieithwyr parhaol i ddysgu'r grefft o gyfieithu ar y pryd.

- Roedd yr offer gwranddo braidd yn gyntefig - problemau batris yn y clustffonau'n bla. Roedd siswrn neu ffeil ewinedd yn erfyn hanfodol i gyfieithydd ar y pryd er mwyn crafu a gloywi cysylltiadau rhydlyd.
- Dwi ddim eisiau rhamantu gormod, oherwydd mae eithriadau clodiw y dyddiau hyn, ond yr oedd trwch aelodaeth Cyngor Sir Gwynedd a ddaeth i fodolaeth yn 1973-74 yn siaradwyr Cymraeg huawdl a chyfoethog iawn eu hiaith. Tan yn ddiweddar iawn cyn hynny, iaith swyddogol cyfarfodydd cyngor oedd y Saesneg. Drwy gynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd i'r di-Gymraeg, rhyddhawyd y Cymry Cymraeg i fynegi eu hunain yn holl gyfoeth eu mamiaith.
- Pleser bob amser yw'r her o geisio gwneud cyfiawnder â siaradwyr da. Mae nhw'n dal i fodoli ond roedd casgliad rhyfeddol ohonynt yn ymgynnull yng Nghaernarfon yn y 1970'au. Pobl fel Tom Jones, Llanuwchllyn (un o dri Tom Jones ar y cyngor). Roedd ef yn gadeirydd y Pwyllgor Cyllid am flynyddoedd. Cyflwynai ei gyllideb gyda chymariaethau cyfoethog megis "Rhaid gwneud toriadau fel y mae ffarmwr yn gwaredu *footrot* – cylllell finiog a chalon galed". Meddai un tro, pan oedd uchel swyddogion am ddyfarnu codiad cyflog sylweddol iddynt eu hunain "Mae hyn fel iro tîn mochyn tew". Cyfieithwch honna yn ddirybudd, dan bwysau, ac ar y pryd!
- Dwi'n grediniol fod siarad Cymraeg yn arwain at benderfyniadau mwy "Cymreig" – dyma gyfnod, er enghraifft, sefydlu Ysgolion Uwchradd Cymraeg Tryfan a'r Creuddyn. Yn ddiddorol iawn, ni chyflwynodd hen Gyngor Sir Feirionnydd wasanaeth cyfieithu ar y pryd. Twyllent hwy eu hunain drwy gredu fod rhyddid i bawb siarad y Gymraeg os mynnai. Saesneg a siaradai'r mwyafrif o ganlyniad, yn enwedig i wneud pwyntiau allaweddol. (Fel y dywedodd un siaradwr dwyieithog yn rhywle "This is important, so I'll say it in English".)
- Nid oedd pob cyfarfod yn Gymraeg ei gyfrwng cofiwch. Mewn un pwyllgor yn Siambr Hywel Dda, Caernarfon, roedd criw dieithr a Seisnig o bob rhan o Ogledd a Chanolbarth Cymru yn bresennol i nodi ymddeoliad y Barnwr Mars Jones o Ddinbych. Roedd yr holl areithiau yn Saesneg nes i'r Cynghorydd Francis Thomas o Garno gyhoeddi (yn Saesneg) ei fod yn dymuno annerch yn y Gymraeg. Ar ôl munudau lawer o sicrhau fod batri pawb yn gweithio, eglurodd Francis Thomas ei fod wedi cyfansoddi englyn o fawl i'r Barnwr Mars Jones. Fel arfer, ni fyddaf yn cyfieithu barddoniaeth. Yn hytrach, aralleiriaf, gydag ymddiheuriad am golli odl ac awen. Ond gan mai dyma'r unig gyfraniad Cymraeg a gafwyd yn y cyfarfod hwn, mentrais roi

cynnig ar gyfieithu'r englyn. Clywodd y Saeson rywbeth tebyg i "A good man, a very good man, ac ati ac ati..." am bedair llinell ddi-gynghanedd a di-fydr, a deimlai fel awdl. A dyna'r cyfan a ddywedwyd yn y Gymraeg yn y cyfarfod hwnnw.

- I'r rhai ohonoch sy'n gyfarwydd ag offer "Sibrwd" is-goch soffistigedig ein dyddiau ni, ystyriwch mai Cyflais 3 yw'r enw swyddogol arno. Mae rhai ohonom yn cofio'r offer Adlais a raglfaenodd Cyflais 1. Cynlluniwyd Adlais yn Aberystwyth rwy'n meddwl gan Iolo ap Gwynn a Hywel Wyn Jones o Brifysgol Cymru Aberystwyth. Cwmni IDB, braich fasnachol Prifysgol Cymru Bangor, a greodd Cyflais 1, 2 a 3.
- Ffrwyth comisiwn gan Gymdeithas Cyn Fyfyrrwyr Cymraeg Coleg Prifysgol Gogledd Cymru Bangor oedd Cyflais 1. Trefnwyd cyngerdd gan yr Athro Gareth Wyn Jones i dalu am yr ymchwil. Perswadiodd ei ffrind, Roger Whittaker a raddiodd ym Mangor yr un pryd ac a oedd yn ganwr poblogaidd byd enwog erbyn hynny, i roi cyngerdd am ddim. Llanwyd Neuadd Prichard Jones i'r ymylon.
- Yn ei ddydd, roedd o'n rhyfeddol medru teithio i rywle yn y sir lle'r oedd trydan a phlygiau (ac nid oedd hynny'n wir am bob festri yn ôl Hedley). Y cymhlethdod gyda'r offer gwreiddiol Adlais oedd mai drwy gyfrwng un gwifren hir y cludid y cyfieithiad i'r gwrandawr. Rhaid oedd i'r cwsmer gysylltu teclyn gwrandawr ag un o gyfres o silindrau, tebyg i focus pils, a osodwyd bob rhyw ddeulath ar hyd y llinell.
- Roedd yn rhaid i bawb di-Gymraeg eistedd yn y ddwy res flaen mewn neuaddau mawr gan na chyrhaeddai'r cebl ddim pellach. Tueddai'r cebl i gaglu fel cwllwm y cythrel. Roedd y cysyniad yn glyfar iawn, gyda'r boc yn agor i ffurfio bŵth. Yn anffodus, mewn un cyfarfod mewn stafell gynnes ar noson oer yn Ysgol Bethel, roedd ffenest y bŵth yn stemio, a minnau yn absenoleb *de-mister* yn methu gweld dim, er gwaethaf rhwbio parhaus a achosodd gryn ddifyrrwch i bawb a oedd yn dyst i'r saga.
- Ond o leiaf fe grewyd offer symudol syml, cludadwy a fforddiadwy. Mewn adroddiad drafft i un o bwyllgorau Gwynedd (a ddaeth atom i'w gyfieithu drwy lwc, a hynny'n rhoi cyfle i Ioan Bowen Rees ei stopio) cyhoeddodd swyddog o Adran Pensaer y Sir nad oedd yn ymarferol cynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd gan ddefnyddio offer symudol. Yn ogystal â geriach fel microffonau a cheblau, byddai angen bŵth symudol gyda gwydr dwbl rhag i bwyllgorwyr glywed llais y cyfieithydd. Byddai angen dau berson i gario'r bŵth trwm a land-rover a threiler i lusgo'r cyfan o amgylch y Wynedd newydd. Byddai'r gost o'r herwydd y tu hwnt i bocedi tlawd y trethdalwyr.

- Bellach, yn oes y sglodyn silicon, mae'r cyfan yn mynd i un bag ysgwydd ac ambell wreigan yn methu dirnad sut y gall yr offer ymddangosiadol syml hwn gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg, nes egluro'n garedig iddi fod angen cymorth cyfieithydd yn ogystal!
- Mae rhai pethau'n aros o hyd – er enghraifft bŵth Siambr Hywel Dda. Os edrychwch ar y to uwchben desg botymau'r meicroffonau fe welwch ôl llosgi. Bu bron i'r bŵth wynebu'r un ffawd â sawl adeilad enwog arall yng Nghaernarfon, megis Capel Moreia, Sinema'r Majestic a Swyddfa'r Herald.
- Bernid mai Cyngor Sir Gwynedd oedd y prif arloeswyr gyda chyfieithu ar y pryd yn y cyfnod hwn. Deuai criwiau ffilmio'n ddi-ddiwedd i wneud eitemau am y bobl od hyn oedd yn pwyllgora mewn iaith heblaw'r Saesneg. Geraint Lovgreen oedd yn cyfieithu pan benderfynodd cynhyrchydd yr eitem yr hoffai *shot* dros ei ysgwydd dde yn edrych mewn i'r Siambr lle'r oedd y cynghorwyr yn dweud eu dweud. Lle cyfyng ar y naw yw bŵth Siambr Hywel Dda a golygai gofynion technoleg y cyfnod fod angen goleuadau llachar i ddangos y Bonwr Lovgreen yn ymarfer ei grefft.
- Tua phum munud yn ddiweddarach cyhoeddodd Geraint i'w gynulleidfa syfrdan "The booth is on fire!" cyn ei heglu hi oddi yno gan wybod fod llwyth o ffôm polystein ar do'r bŵth mewn ymgais i ynysu llais y cyfieithydd. Yn ffodus (neu yn anffodus ym marn cenedlaethau o gyfieithwyr diweddarach), ni afaelodd y fflamau. Ond erys olion yr anffawd.
- 'Dach chi'n gweld, mae pob math o bethau od yn medru digwydd i gyfieithwyr sydd tu hwnt i'w rheolaeth. Bu drama answyddogol y llynedd yn Theatr Gwynedd yn ystod cyfarfod o Fwrdd y Theatr. Roeddwn i yn Llanrwst pan gefais neges testun gan gyfieithydd mewn trybini (damsel in distress) (dienw ond sydd yn yr ystafell hon). Roedd hi'n teimlo'n sâl. A fedrwn ddod i'w hachub? Fedrwn i ddim ond, yn ffodus, roedd cyfieithydd arall ar gael yn nes i Fangor a gyrhaeddodd (rwy'n meddwl) jest cyn i'r cyfieithydd cyntaf orfod gadael y cyfarfod i daflu fyny!
- Mae ambell unigolyn yn naturiol yn gosod her i gyfieithwyr ar y pryd, ac nid dim ond y rhai aml gymalog a dryslyd eu meddwl. Diolch i'r dramodydd John Gwilym Jones y cefais i un o'm hunllefau gwaethaf fel cyfieithydd. Ers stalwm roedd yr Academi Gymreig yn cynnal cyfarfodydd ar y cyd â'u cangen Saesneg a gwahoddwyd John Gwilym Jones i draddodi darlith ar Straeon Byr Chekov. Roedd Ysgrifennydd yr Academi, Ann Beynon, wedi dyblygu a dosbarthu fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r



stori berthnasol i'r gynulleidfa niferus ond cyhoeddodd John Gwilym Jones ar ddechrau'i ddarlith ei fod wedi penderfynu trafod stori fer wahanol.

- Pwylseisiodd mor dynn oedd gwedd straeon byr Chekov – pob gair a sill fel mewn englyn yn fwriadus haeddu ei le. “I brofi'r pwynt”, meddai, “rwyf am ddarllen paragraff gyntaf y stori” a dyna wnaeth gan ddefnyddio'r cyfieithiad Cymraeg, ar 100 milltir yr awr. Clywodd y di-Gymraeg fersiwn wahanol a dweud y lleiaf o gynildeb Chekov – fersiwn a oedd yn boenus o annigonol a dweud y gwir.
- Clywais wedyn fod yn gas gan John Gwil gael ei gyfieithu ac mae'n bosib fod hyn oll yn fwriadol. I rwbio halen i'r briw, roeddwn wedi rhoi lifft iddo'r holl ffordd o'r Groeslon i Goleg Harlech lle traddodwyd y ddarlith. Roddodd o ddim gair o rybudd ymlaen llaw!
- Mae llu o faglau'n llechu i ddal y cyfieithydd ar y pryd mewn moment wan. Megis fy ffôn symudol yn canu ym mhoced fy nghot ym mhen pellaf neuadd chwaraeon fawr llawn eco ar ganol araith un o Weinidogion y Cynulliad.
- Un o'r peryglon mwyaf yw defnyddio geirau anghywir sy'n ymdebygu i'r gwreiddiol. Wn i ddim beth oedd cynghorwyr di-Gymraeg Gwynedd yn feddwl o gynlluniau newydd yr Adran Addysg i ddysgu pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd “teaching punks through the medium of Welsh” oedd y cyfieithiad. Taerai Hedley fod gweinidog arall wedi cyfeirio at y “book of Diarebians” a chyfieithodd un o gyfieithwyr Gwynedd yr ymadrodd “Fe nodwn i hyn” fel “we'll nod this”.
- Enllibiwyd trigolion difreintiedig Sir Aberteifi yn arw gan un cyfieithydd pan ddywedodd (yn lle “deprived”) “the people of Ceredigion are depraved!”
- Un drafferth newydd yw'r ffasiwn diweddar gan gwangoau a changhennau'r Cynulliad i roi teitlau Cymraeg ar eu hymgyrchoedd – er engrhaifft y “Cynllun Cymorth”. Clodwiw ar un ystyr, ond mae'n cymhlethu bywyd y cyfieithydd. Pan gyfeiria siaradwr at “bwysigrwydd cymorth” ac ati rhaid penderfynu'n gyflym ai “cymorth” gydag “c” fach yntau “Cymorth” gydag “C” fawr a olygir.
- Ac os ga'i symud i o “c” fach i “g” fach – un tro yng Ngwynedd fe gyfieithwyd “gwleidyddiaeth gydag g fach” yn “politics with a small g”! Think about it.
- Lai na mis yn ôl roeddwn yn cyfieithu mewn cyfarfod blynyddol mudiad cydweithredol yn y gogledd a'r Cadeirydd yn dweud ddwywaith neu dair “hoffwn ddiolch i'm mos” a gyfieithais yn ffyddlon fel “I would like to thank my boss”. Erbyn y trydydd tro, roeddwn i'n meddwl fod y llywydd yn crafu braidd am godiad cyflog gan ei fos, nes i

aelod o'r gynulleidfa ddwyn fy sylw at y ffaith mai diolch i lywydd y gymdeithas Mr Moss Jones yr oedd. "I would like to thank Moss", ddylwn i fod wedi ei ddweud!

- Cyfeiria Berwyn yn ei ddarlith at anhawsterau cyfieithu ar y pryd o'r Almaeneg, lle mae'r ferf ar ddiwedd y frawddeg. Yn y Gymraeg bu'n ceisio cyfieithu Jams Niclas a oedd wedi prynu llyfr am "ddwy bunt...ar bymtheg...ar hugain".
- Cewch ystyron annisgwyl i'ch cyfieithiad – wrth drafod cais cynllunio ar gyfer cloddio mewn chwarel cyfeiriodd un cyfieithydd at "boring work".
- Dyw ansawdd y cyfieithiad ddim yn berffaith bob amser 'chwaith. Mewn achos llys yng Nghaerdydd, meddai cyfieithydd y frawddeg "The police do not oppose bail" - yr unig un oedd angen ei throsi y diwrnod hwnnw - "Smo'r polis yn oposo bail"!
- Ond dyna ddigon am y gorffennol. Beth am y presennol a'r dyfodol? Lle gynt yr oedd cyfres o gynghorau sir a dosbarth/bwrdeistref yn arwain y ffordd, sefydliadau cenedlaethol fel y Cynulliad a Bwrdd yr Iaith sydd bellach yn gyrru'r injan strategol ac ariannol.
- Hedley Gibbard a gariodd y baton cyfieithu ar y pryd o Wynedd i'r Bae. Treuliodd gyfnod estynedig ar secondiad yn hyfforddi cyfieithwyr ar y pryd y darpar Gynulliad newydd. A pha well meistr i ddysgu'r grefft. Roedd teithio'n ôl a mlaen yn wythnosol i Gaerdydd yn gryn dreth ar Hedley mae'n siwr, ond roedd o'n barod iawn i wneud hynny.
- Golyga datblygiadau technegol a thŵf yn nifer yr ymarferwyr unigol a chwmnïau cyfieithu masnachol nad oes gan yr un sefydliad cyhoeddus na phreifat reswm dros beidio a chynnig gwasanaeth cyfieithu ar y pryd, heblaw diffyg ewyllys a llygad ar y boced.
- Cynydda'r galw am gyfieithu ar y pryd yn barhaus, a chyda hynny, yr angen i reoleiddio . Rwy'n falch fod Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru wedi gafael yn yr awenau drwy gyflwyno trefn arholi ac achredu cyfieithwyr ar y pryd yn ogystal â chyfieithwyr ysgrifenedig. Gwyliwch am ddatblygiadau yn yr Hydref.
- Y cam nesaf yn fy marn i yw archwilio ymhellach y posibiliadau cyffrous ar gyfer cyfieithu o bell. Mae'n digwydd eisoes mewn ffordd dameidiog, a heb sylw digonol i ofynion arbennig y cyfieithydd. A oes raid i gyfieithwyr wastraffu amser ac ynni yn teithio'r wlad, pryd y gellid harneisio technoleg yr unfed ganrif ar hugain i gyfieithu cyfarfodydd mewn sawl twll a chornel o Gymru o un man canolog? Byddai'n gyfraniad pwysig i'r agenda werdd – a thalai ar ei ganfed am gost y buddsoddiad.

- Ond i orffen yn y presennol - 'dwi ddim am golli'r cyfle hwn ar ran llw o gyd-gyfieithwyr i geryddu Llywodraeth Cynulliad Cymru am eu diffyg darpariaeth Gymraeg mewn cynadleddau honedig ddwyieithog ar hyd a lled Cymru. Beth ydy'r pwynt cyflogi cyfieithwyr ar y pryd i eistedd yn fud yn y gornel pan fo holl gyflwyniadau llafar y gynhadledd, yr arddangosion PowerPoint a'r cadeirio'n ddi-Gymraeg?
- Os ydi'r Cynulliad am wneud y Gymraeg yn "iaith pawb" – man da i ddechrau fyddai addysgu eu hadrannau a'u cwangoau nhw eu hunain. Mae trefnwyr y cyfarfodydd hyn yn bobl glen ond yn hollol ddiglem ynglŷn â mechanics cyfarfodydd dwyieithog. (Mae rhai wedi datblygu esgus perffaith hefyd dros gyflwyno dogfenaeth y cyfarfodydd yma yn uniaith Saesneg - "This is a pre-consultation document so it hasn't been translated".)
- Mae hefyd yn hen bryd i gynrychiolwyr rhai o'n sefydliadau Cymreiciaf ddangos mwy o asgwrn cefn a pheidio ag anghofio'u Gymraeg pan deithiant oddi cartref i gynadleddau o'r fath. Gydag eithriadau clodiw, mae nifer yn anghofio eu Gymraeg pan welant dyrrau Bae Colwyn heb son am dyrrau Amwythig.
- Bum unwaith mewn cynhadledd lle roedd Cadeirydd a mwyafrif un grŵp trafod yn Gymry Gymraeg ond adroddasant yn ôl i'r sesiwn dorfol yn Saesneg. I rwbio halen i'r briw, daeth cadeirydd y grŵp ataf ar y diwedd a dweud fod gen i joban braf iawn, yn cael fy nhalu am wneud dim! Cefais fy nhemtio i roi dyrnaid ar ei drwyn!
- Wel dyna chi – cipolwg sydyn iawn ar ddatblygiad cyfieithu ar y pryd dros y 30 mlynedd diwethaf yng Nghymru. Ymddiheuriadau i'r rhai na gafodd mensh, yn arbennig i garedigion y Gymraeg a fu'n lledaenu'r grefft cyfieithu ar y pryd yn ddyfal tu allan i'r Gogledd Orllewin. Ond, mae amser heddiw'n drech.
- Cyn ichi weld bai arna'i am eich cadw o'ch cyhoeddiad nesaf, diolch unwaith eto am y fraint o gael cyflwyno darlith goffa Hedley Gibbard. Fel y dywedai Hedley'n aml ar ddiwedd cyfarfod (heb ei feddwl o go iawn) - "Ewch adre chi'r diawled!"